

## Rhaglen Arweinwyr o Gefndiroedd Ethnig Leiafrifol

### Ynglŷn â'r rhaglen

#### Rhaglen Arweinwyr o Gefndiroedd Ethnig Leiafrifol ar gyfer y Sector Addysg Gynradd

Ydych chi'n arweinydd canol neu uwch sy'n dyheu am ddatblygu neu sydd eisoes wedi'i sefydlu, o gefndir ethnig leiafrifol, sy'n gweithio ym maes addysg gynradd yng Nghymru?

Mae Estyn yn gwahodd ceisiadau i ymuno â'n Rhaglen Arweinwyr o Gefndiroedd Ethnig Leiafrifol, cyfle dysgu proffesiynol unigryw sydd wedi'i gynllunio i gefnogi datblygiad arweinyddiaeth, ehangu dealltwriaeth o arolygu a gwerthuso, a helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i ddatblygiad gyrfa addysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yng Nghymru.

Trwy'r rhaglen, bydd cyfranogwyr yn:

- Cael cipolwg ar fframweithiau a phrosesau arolygu Estyn
- Datblygu sgiliau arweinyddiaeth, gwerthuso a chyfathrebu
- Gweithio ochr yn ochr ag AEM profiadol trwy fentora a hyfforddi
- Cymryd rhan mewn gweithdai, gweminarau a gweithgareddau dysgu cydweithredol
- Meithrin rhwydweithiau gydag arweinwyr o bob rhan o Gymru
- Ennill profiad gwerthfawr sy'n cefnogi datblygiad gyrfa a datblygiad arweinyddiaeth

Mae'r rhaglen hefyd yn darparu llwybr posibl tuag at hyfforddiant Arolygydd Cymheiriaid yn y dyfodol ar gyfer cyfranogwyr cymwys.

### Cymhwysra

Rhaid i ymgeiswyr:

- Uniaethu fel unigolyn o gefndir ethnig leiafrifol
- Gweithio mewn ysgol gynradd yng Nghymru ar hyn o bryd
- Bod â phrofiad addysgu o leiaf 5 mlynedd
- Dal cyfrifoldeb addysgu, dysgu neu les (â thâl neu'n ddi-dâl)
- Gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg
- Cael cefnogaeth eu Pennaeth, eu Prifathro neu eu cyflogwr i fynychu gweithgareddau'r rhaglen ac unrhyw gyfleoedd arolygu

### Cymeradwyaeth

Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd angen cymeradwyaeth gan eich Pennaeth,

Prifathro neu gyflogwr.

Mae hyn er mwyn cadarnhau cefnogaeth i fynychu sesiynau hyfforddi a gweithgareddau cysylltiedig y rhaglen.

Sylwer bod rhaid derbyn y gymeradwyaeth cyn i'r hyfforddiant ddechrau. Yn anffodus, heb gymeradwyaeth y cyflogwr, ni fydd cyfranogwyr yn gallu mynychu'r rhaglen.

### **Gofyniad DBS**

Bydd angen tystysgrif DBS fanwl ar ymgeiswyr llwyddiannus, wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd ddiwethaf, sy'n cynnwys y categori gweithlu plant.

Os bydd angen gwiriad DBS newydd, rhaid cwblhau hwn cyn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd arolygu.

### **Ymrwymiad i'r rhaglen**

Bydd y rhaglen yn rhedeg dros gyfnod o chwe mis ac yn cynnwys:

- Tri sesiwn dysgu proffesiynol wyneb yn wyneb
- Sesiynau hyfforddi o bell
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau arolygu
- Gweithdai arweinyddiaeth a chyfathrebu
- Mentora ar ôl cwblhau'r rhaglen

Mae cyfranogiad yn rhad ac am ddim. Byddwn yn talu costau teithio, cynhaliaeth a llety (lle bo'n gymwys) yn unol â'n polisi teithio a chynhaliaeth [YMA](#). Fodd bynnag, ni allwn dalu costau athrawon cyflenwi.

### **Pam gwneud cais?**

Mae cyfranogwyr blaenorol wedi disgrifio'r rhaglen fel un drawsnewidiol i'w hyder, eu datblygiad arweinyddiaeth a'u dyheadau gyrfa.

"Mae'r rhaglen wedi rhoi hwb sylweddol i'm hyder. Rwyf bellach yn teimlo'n barod i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth uwch."

"Mae'r cyfle i weld y broses arolygu wedi rhoi gwell dealltwriaeth i mi o arweinyddiaeth strategol ac arweinyddiaeth ysgol gyfan."

### **Gwnewch gais nawr**

Ffurflen gais ar-lein: [\[YMA\]](#)

Dyddiad cau: Canol dydd ddydd Iau 2 Gorffennaf 2026

Am ragor o wybodaeth: [events@estyn.gov.wales](mailto:events@estyn.gov.wales) | 02920 446510

Mae unrhyw feysydd sydd wedi'u marcio â \* yn orfodol. Os nad yw maes yn berthnasol i chi, nodwch "Ddim yn berthnasol".